Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod: AC/077/caf
Dyddiad cyhoeddi: 23 Ionawr 2019

Annwyl Nick

Ymateb Llywodraeth Cymru: Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal

Gwahoddodd y tîm clercio sylwadau gennyf ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018 ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Er nad o adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru y cododd ymchwiliad y Pwyllgor, mae fy nghydweithwyr wedi adolygu'r ymateb ac rwyf yn gwneud nifer o sylwadau isod.

Yn rhai achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor lle mae'n ymddangos i fod yn ymateb yn gadarnhaol ond nid yn union fel yr oedd y Pwyllgor yn bwriadu efallai. Mae hyn yn adlewyrchu'r agwedd tuag at dderbyn neu wrthod y mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi ei amlinellu i'r Pwyllgor o'r blaen. Er hynny, bydd angen i'r Pwyllgor benderfynu a yw'n fodlon ar yr ymateb a roddwyd yn yr achosion hynny.

Argymhelliad 1: Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael eglurder ar y berthynas rhwng y trefniadau ar gyfer y Fframwaith Gwella Perfformiad i Blant a'r dangosyddion, fydd yn eu lle erbyn Ebrill 2019, i roi set ddata well o ddeilliannau, yn cwmpasu ystod ehangach o feysydd polisi, ac sy'n ychwanegol at y rheiny sydd wedi eu cynnwys yn y Fframwaith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro'n llawn pam y bydd yn bosibl gweithredu'r olaf o fis Ebrill 2019 ond y cyntaf o Ebrill 2020 yn unig. At hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r cwestiwn o sut y cafodd barn pobl ifanc ei hystyried wrth ddatblygu'r dulliau hyn.

Argymhelliad 2: Ymgymerwyd ag amrywiaeth o waith i ystyried effeithiolrwydd y Grant Datblygu Disgybl yn ei ffurf bresennol, gyda dull newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno holi ynghylch unrhyw werthusiad parhaus sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y trefniadau newydd hynny, a

chymryd bod y gwerthusiad annibynnol a grybwyllwyd yn yr ymateb yn ymwneud â'r trefniadau presennol.

Argymhelliad 3: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad ac wedi dangos sut y mae'n bwriadu rhoi mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â'r Rhaglen Gwella Deilliannau i Blant a gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu cyhoeddi'r cofnodion fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, oherwydd pryder y gallai hyn lesteirio dadlau rhydd a gonest. Hwyrach y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw'n fodlon yn hynny o beth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pryderon a fynegwyd yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch y ffaith fod y Grŵp yn cyflawni swyddogaethau gweithredol, ond mae'n pwysleisio bod y trefniadau bellach wedi eu hen sefydlu ac mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw am Raglen Gwella Deilliannau i Blant. Er hynny, mae rôl gyflawni'r Grŵp efallai yn cael ei phwysleisio gan yr ymateb i argymhelliad 1, sy'n disgrifio'r gwaith y mae'r Grŵp wedi ei ddatblygu er mwyn mesur cynnydd yn erbyn ei raglen waith. Ymddengys geiriad yr ymateb fel pe bai'n awgrymu mai prif bwrpas y Grŵp yw rhoi cyngor i'r Gweinidog ac mai dyma'r sail dros wrthod cyhoeddi'r cofnodion.

Argymhelliad 4: Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad ac yn awr yn cyhoeddi tendr ymchwil newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod geiriad yr argymhelliad yn cyfeirio at edrych ar ddeilliannau gwahanol ar draws bywyd y plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai hyn yn gofyn am astudiaeth hydredol ond nid hynny'n union yw'r hyn sy'n cael ei gynnig am y rhesymau a eglurwyd yn yr ymateb. Mae'r cyfnod o amser ar gyfer cwblhau'r ymchwil hefyd yn aneglur. Mae'r ymateb i argymhelliad 6 yn cyffwrdd â chyfnod o amser posibl ond heb wneud sylw pendant.

Argymhelliad 5: Mae'r ymateb yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr angen i gryfhau'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud ag adolygiadau o gynllun gofal a chymorth plentyn, yn dilyn newidiadau i'r cynllun hwnnw. Yn hytrach na chynnal gwerthusiad ar ei ben ei hun o amlder ac effeithiolrwydd adolygiadau ar ddiwedd lleoliadau, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn benodol mewn arolygiadau o wasanaethau plant yn y dyfodol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael eglurder gan Lywodraeth Cymru beth fydd hyn yn ei olygu'n ymarferol o ran cyfnodau amser a gwneud hyn ar draws Cymru yng nghyd-destun rhaglen waith ehangach Arolygiaeth Gofal Cymru .

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei ddealltwriaeth fod AGC wedi bod yn cynnal adolygiad thematig o wasanaethau plant sy'n derbyn gofal ar draws Cymru. Gallai'r Pwyllgor fod wedi disgwyl y byddai'r adolygiad hwnnw'n medru rhoi tystiolaeth berthnasol ynghylch adolygiadau ar ddiwedd lleoliadau, ond nid yw'n cael ei grybwyll yn yr ymateb. Efallai y bydd hyn hefyd yn haeddu eglurhad

pellach. Roedd y Pwyllgor wedi disgwyl i'r adolygiad hwnnw gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019 a dywedodd y byddai'n ystyried y canfyddiadau fel rhan o'i waith parhaus.

Argymhelliad 6: Er bod cynnwys yr ymateb yn ymddangos yn rhesymol, a derbyn bod yr argymhelliad yn disgwyl i'r dadansoddiad o gyflawni lleoliadau gael ei gwblhau o fewn 12 mis, mae'r llinell amser ar gyfer yr ymchwil fyddai'n rhoi'r dadansoddiad hwn - yr ymchwil y soniwyd amdani mewn ymateb i argymhelliad 4 - yn amhendant. Yn dilyn o hynny, mae'r ymateb yn awgrymu y gallai comisiynu cenedlaethol newydd ddod i rym yn 2021-22 ond heb fod yn glir a yw hynny'n ymrwymiad pendant. Byddwn wedi disgwyl, wrth gyhoeddi'r tendr ymchwil a ddisgrifiwyd yn yr ymateb i argymhelliad 4, y byddai Llywodraeth Cymru wedi pennu amserlen gyflawni ddisgwyliedig, er y gallai hyn fod yn dibynnu ar ei thrafodaethau gyda chyflenwyr posibl ynghylch y posibiliadau.

Argymhelliad 7: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad ac yn dweud y bydd yn ystyried terfynau'r asesiad o wariant ar draws meysydd gwasanaeth fel rhan o'r ymchwil a amlinellwyd yn yr ymateb i argymhellion eraill. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gall fod yna gyfyngiadau ar ei gallu i asesu'r gyfran o'r gwariant sydd i'w phriodoli i blant sy'n derbyn gofal. Efallai bod hyn yn golygu nad yw'n gallu mynd i'r afael yn llawn â phryderon y Pwyllgor a fynegwyd yn ei adroddiad ynghylch tryloywder gwariant.

Argymhelliad 8: Mae'r sylwadau uchod ynghylch yr ymchwil a ddisgrifiwyd mewn ymateb i argymhellion 4, 6 a 7 yn berthnasol yma hefyd. At hynny, ac er gwaethaf derbyn yr argymhelliad, nid yw'r ymateb yn ymdrin â'r cwestiwn a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu casglu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd yn hytrach na thrwy un darn o ymchwil yn unig.

Argymhelliad 9: Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad ond wedi pwysleisio ei bod yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar leihau'r angen am ofal ac yn darparu cymorth effeithiol i deuluoedd i'w galluogi i aros gyda'i gilydd. Ymddengys mai'r sail dros wrthod yr argymhelliad yw barn Llywodraeth Cymru na fyddai'n bosibl asesu'n benodol effaith trosglwyddo'r arian grant, oedd wedi ei glustnodi o'r blaen ar gyfer gwasanaethau ymyl gofal, i'r Grant Cynnal Refeniw.

Fodd bynnag, efallai y gallai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd ar lefel gwariant parhaus ar y gwasanaethau hyn. Efallai y bydd hyn yn rhoi awgrym a fu yna unrhyw ddadfuddsoddiad o'r gwasanaethau hyn ers trosglwyddo i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw. Efallai y bydd y Pwyllgor felly yn dymuno cadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru'n ymroi i fonitro lefel y gwariant ar y gwasanaethau hyn drwy ei ymgysylltiad parhaus â phartneriaid yn yr awdurdodau lleol a gwasanaethau plant.

Argymhelliad 10: Er nad yw'n crybwyll gofal gan berthnasau yn benodol, mae'r ymateb yn ymddangos yn rhesymol. Rwyf yn cynnal archwiliad o'r Gronfa Gofal Integredig, ac i adrodd ar hynny y gwanwyn hwn. Mae amseriad y gwaith hwn yn golygu na fydd yn edrych ar y defnydd o'r £15 miliwn ychwanegol o arian a ddisgrifiwyd yn yr ymateb i'r argymhelliad. Er hynny, byddai unrhyw waith craffu ar sail canfyddiadau'r adroddiad yn cynnig cyfle i edrych i mewn i hyn yn fanylach.

Yn olaf, yn hytrach na chyfnewid gohebiaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru, gallai'r Pwyllgor ystyried a yw ymateb Llywodraeth Cymru'n haeddu sesiwn dystiolaeth ddilynol, fer gyda swyddogion arweiniol er mwyn cael eglurder ar faterion. Gallai'r Pwyllgor hefyd gadarnhau'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer unrhyw ddiweddariad ar gynnydd mewn ymateb i'r argymhellion, gan gymryd i ystyriaeth y cynlluniau parhaus ar gyfer gwaith yn y maes hwn ac unrhyw ddiddordeb pellach mewn meysydd penodol gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Hyderaf fod y sylwadau hyn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru